

SL(6)544 – Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024

Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("y Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid"). Mae'n cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991 ("Gorchymyn 1991") o ran Cymru.

Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i osodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd yr un pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae anghysondebau yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, sydd i ddisodli'r Atodlen bresennol i'r Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid. Yng ngholofn 1 Tabl 1, yn y cofnod cyntaf a'r ail gofnod, disgrifir trwyddedau fel "*mangre werthu neu [i'w defnyddio fel] [c]anolfan gasglu...*". Yn y trydydd a'r pedwerydd cofnod, disgrifir y trwyddedau fel rhai "ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu fangre sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu".

Mae'r cofnodion, felly, yn amrywio drwy gyfeirio at "mangre werthu" neu "mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthu anifeiliaid". Dylai'r disgrifiadau yn y cofnodion hyn yng ngholofn 1 Tabl 1 fod yn gyson â'i gilydd os ydynt i gyd yn cyfeirio at yr un gweithgaredd ar y safle. Mae pennawd Tabl 1 yn cyfeirio at "[f]angreodded ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu" sy'n awgrymu bod y trydydd a'r pedwerydd cofnod yn gywir.

At hynny, mae "anifeiliaid" yn derm diffiniedig yn erthyglau 2 o Orchymyn 2018 a Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2010, fel ei gilydd, sy'n golygu bod ei gynnwys yn arwyddocaol gan fod iddo ystyr penodol yn y cofnodion hyn.



Rhinweddau: craffu

Nodwyd yr un pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

- 2. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi swm y tâl am drwyddedau a cheisiadau amrywiol fel a nodir yn yr Atodlen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

